**Rhif: WG35286**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Dileu’r gosb o garchar am beidio â thalu treth gyngor

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mehefin 2018
Camau i'w cymryd: Ymateb erbyn 3 Medi 2018

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eich barn ynglŷn â dileu'r gosb o garchar mewn perthynas â dyled treth gyngor. |
| **Sut mae ymateb** | Gellir anfon ymatebion dros e-bost neu eu hanfon yn uniongyrchol at:<br><br>Cangen Polisi Treth Gyngor<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>E-bost: LGF1Consultations@gov.wales |
| **Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at:<br><br>LGF1Consultations@gov.wales<br>Cangen Polisi Treth Gyngor<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Diogelu data** | Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch |

cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.
Ni chaiff eich data eu cadw am fwy na thair blynedd

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch;
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny;
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data;
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu';
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn : 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan : www.ico.gov.uk

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost :
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

**TABL CYNNWYS**

**RHAGAIR GAN YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYLLID..........................6**

CYFLWYNIAD 7
EIN DULL PRESENNOL O GEFNOGI TRETH GYNGOR DECACH 7
Y TREFNIADAU PRESENNOL AR GYFER GORFODI DYLED TRETH GYNGOR 9
ASIANTAU GORFODI (BEILÏAID) 11
CYMHARIAETH Â DYLEDION SIFIL ERAILL (GAN GYNNWYS YR ALBAN) 12
CYFRADDAU ANNOMESTIG 12
TRETHI DATGANOLEDIG 12
YR ALBAN 12

**YR ACHOS DROS DDILEU'R GOSB O GARCHARU .......................................13**

CASGLIAD 15
CAMAU NESAF 15

**FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD.....................................................16**

CWESTIYNAU 16

## RHAGAIR GAN YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYLLID

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraeth leol i adolygu'r dreth gyngor i'w gwneud yn decach.

Rydym i gyd yn talu trethi oherwydd ein bod i gyd yn derbyn y manteision cyfunol y mae'r trethi hyn yn talu amdanynt - y gwasanaethau sy'n addysgu ein plant; gofalu am yr henoed; gwaredu ein gwastraff; goleuo ein strydoedd a diogelu ein cymunedau. Er mwyn cynnal y gwasanaethau hyn, mae'n iawn y dylai'r rhai sy'n gallu cyfrannu eu cyfran deg wneud hynny ac y dylai'r baich mwyaf ddisgyn ar y rhai sydd â'r mwyaf o allu i'w ysgwyddo, tra'n sicrhau bod y rhai sy'n llai galluog i gyfrannu yn cael eu trin yn deg a chydag urddas.

Yn ddiweddar, lansiais ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth a'r defnydd o'n Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a gostyngiadau eraill sydd ar gael i bobl sydd angen help i dalu eu treth gyngor. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector, megis Cyngor ar Bopeth ac Age Cymru, i sicrhau bod aelwydydd yng Nghymru yn deall yr holl gymorth sydd ar gael iddynt.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos â llywodraeth leol i archwilio cyfleoedd i fabwysiadu dulliau mwy rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion i helpu i atal dyledion treth gyngor rhag codi a chynyddu. Bydd y mentrau hyn yn darparu cefnogaeth i aelwydydd sy'n agored i niwed yng Nghymru ac yn sicrhau bod y rhai sydd angen cymorth yn ei gael.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, credaf ei bod yn iawn ein bod yn ystyried priodoldeb y camau gorfodi sy'n golygu bod pobl yn cael eu hanfon i garchar am beidio talu treth gyngor.

Fy marn i yw nad yw mynd i ddyled yn drosedd. Mae cosbi trwy garcharu yn ymateb hen ffasiwn ac anghymesur i fater dyled sifil. Mae cost ychwanegol sylweddol i'r pwrs cyhoeddus o anfon unigolion i'r carchar ac nid yw'r fath gamau yn gwneud dim i fynd i'r afael â'r rhesymau dros y ddyled sy'n ddyledus i'r awdurdod lleol neu i leihau'r ddyled. Mewn llawer o achosion, mae'n gwaethygu'r sefyllfa.

Rhaid inni hefyd ystyried yr effaith hirdymor ar les a rhagolygon dyfodol pobl sydd wedi cael eu carcharu a'r effaith ar eu teuluoedd. Mae yna effaith ganlyniadol ar wasanaethau cyhoeddus eraill hefyd, gan fod angen mwy o gefnogaeth yn aml gan rywun sydd wedi'i anfon i garchar a'u teulu.

Nid yw carcharu am beidio â thalu treth gyngor yn gosb a ddefnyddir yn aml. Fodd bynnag, amlygodd yr adolygiad barnwrol diweddar yn achos preswylydd o Ben-y-bont ar Ogwr[1] bod pobl yn cael eu hanfon i'r carchar yn anghyfreithlon mewn rhai achosion.

Ni all Llywodraeth Cymru gymryd camau mewn perthynas â gweithrediad y llysoedd, gan nad yw'r cyfrifoldeb dros hyn wedi'i ddatganoli. Ond mae gennym bwerau i ddiwygio'r drefn orfodi bresennol drwy ddileu'r pŵer i anfon pobl i garchar yng Nghymru am beidio â thalu treth gyngor. Rwy'n credu mai hyn yw'r peth iawn i'w wneud ar hyn o bryd. Mae yna gamau gorfodi eraill, mwy priodol, y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i fynd ar ôl dyledion sifil.

---

[1] http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/38677009

## Cyflwyniad

1. Yn *Symud Cymru Ymlaen* a *Ffyniant i Bawb*, rydym yn ymrwymo i weithio gyda llywodraeth leol i adolygu'r dreth gyngor i'w gwneud yn decach. Rydym yn cyflawni’r ymrwymiad hwn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys ein hymgyrch ddiweddar i godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o gefnogaeth ariannol i aelwydydd sydd ar incwm isel ac sy’n agored i niwed.

2. Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymchwil ar *Dulliau awdurdodau lleol o ymdrin ag adennill dyledion treth gyngor yng Nghymru*. Roedd hyn yn rhan o'r gwaith i gefnogi diwygio llywodraeth leol ac i helpu i lywio’r gwaith o gyflawni ein hymrwymiad i wneud y dreth gyngor yn decach.

3. Mae nifer o adroddiadau ymchwil eraill hefyd wedi'u cyhoeddi yn y blynyddoedd diwethaf, gan dynnu sylw at broblem gynyddol dyled treth gyngor, gan gynnwys adroddiad Cyngor ar Bopeth *Fairness For All - Improving council tax debt collection in Wales*[2] ac adroddiad Money Advice Trust *Stop the Knock – mapping local authority debt collection practices in England and Wales*[3].

4. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda llywodraeth leol i weithredu rhai o'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiadau hyn. Bydd hyn yn caniatáu i ni fabwysiadu dulliau mwy rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion i helpu i atal dyledion treth gyngor rhag codi a chynyddu.

5. Barn Llywodraeth Cymru yw nad yw mynd i ddyled yn drosedd. Credwn fod y gosb o garchar yn ymateb hen ffasiwn ac anghymesur i fater dyled sifil. Mae cost ychwanegol sylweddol i’r pwrs cyhoeddus o anfon unigolion i’r carchar ac nid yw gweithred o’r fath yn cael effaith gadarnhaol ar y ddyled sy'n ddyledus i'r awdurdod lleol.

6. Felly rydym yn lansio'r ymgynghoriad hwn i ofyn am eich barn ynglŷn â dileu'r gosb o garchar mewn perthynas â dyled treth gyngor

## Ein dull presennol o gefnogi treth gyngor decach

7. Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i ddiddymu budd-dal y dreth gyngor o fis Ebrill 2013, datblygodd a gweithredodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) cenedlaethol i Gymru. Mae hyn yn parhau i amddiffyn yr aelwydydd hynny sydd angen cefnogaeth gyda'u biliau treth gyngor. Yn Lloegr, rhaid i awdurdodau lleol unigol ddatblygu eu cynlluniau eu hunain.

8. Mae ein cynllun CTRS yn darparu cymorth ariannol i bron i 300,000 o aelwydydd. O'r rhain, nid yw bron 220,000 yn talu unrhyw dreth gyngor o gwbl. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu £ 244m bob blwyddyn i ariannu’r cynllun drwy setliad llywodraeth leol.

---

[2] https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Wales/Fairness%20for%20all%20-%20September%202016%20-%20Google%20Docs.pdf

[3] https://www.stoptheknock.org/storage/app/media/downloads/money-advice-trust-stop-the-knock-2017-report.pdf

9. Disgynnodd y nifer sy’n derbyn CTRS o 323,000 ym mis Mai 2013 i 290,000 ym mis Mehefin 2017, a phrin yw’r dystiolaeth leol i awgrymu bod amgylchiadau aelwydydd wedi gwella'n sylweddol. Dengys tystiolaeth nad yw llawer o aelwydydd cymwys yn ymwybodol o'r gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddi ac nad ydynt yn derbyn cefnogaeth am nifer o resymau cymhleth. Er enghraifft, mae ein hasesiad diweddar o gymhwyster yn awgrymu y gallai'r ganran sy’n derbyn CTRS o’r aelwydydd incwm isel yng Nghymru fod rhwng 55% a 65%[4]. Mae lefelau hawlio isel CTRS yn effeithio ar natur raddedig a thegwch y dreth gyngor.

10. Er mwyn annog mwy o aelwydydd cymwys i dderbyn CTRS, rydym ar hyn o bryd yn ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o gefnogaeth sydd ar gael i aelwydydd. Mae'r ymgyrch hon yn cynnwys posteri mewn lleoliadau perthnasol, cynnwys trwy sianeli digidol Llywodraeth Cymru a negeseuon wedi’u targedu yn y cyfryngau cymdeithasol.

11. Un agwedd allweddol ar y gwaith codi ymwybyddiaeth yw cyfeirio ymholiadau at wybodaeth wedi'i diweddaru ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys 'gwirydd cymhwyster', sy'n helpu aelwydydd i nodi a ydynt eisoes yn cael disgownt treth cyngor neu gymorth neu i gysylltu â'u hawdurdod lleol os ydynt o'r farn y gallent fod yn gymwys i gael cymorth.

12. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau cynghori ar ddyledion i sicrhau bod aelwydydd yn deall ac yn derbyn yr holl ostyngiadau treth gyngor a’r disgowntiau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae'r ymgyrch hefyd yn cynnwys deunydd codi ymwybyddiaeth gyda hysbysiadau atgoffa, gwysion a rhybuddion terfynol a gyhoeddir gan awdurdodau lleol.

13. Ochr yn ochr â'n gweithgarwch hyrwyddo, rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau cynghori ar ddyledion i nodi a rhannu arferion da i sicrhau bod y camau a gymerir ar ôl-ddyledion treth gyngor yn gymesur, yn deg ac yn gyson.

14. Mae gennym rai pryderon ynglŷn ag effaith negyddol bosibl y broses casglu treth gyngor bresennol a’r defnydd o asiantaethau gorfodi ar unigolion sy'n agored i niwed. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau cynghori ar ddyledion i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cymryd eu cyfrifoldebau i amddiffyn aelwydydd sy'n agored i niwed o ddifrif, gan sicrhau bod pobl mewn dyled yn cael eu trin â thegwch ac urddas.

15. Gwyddom fod llawer o gartrefi yn cael trafferth ymdopi ag effeithiau diwygiadau Llywodraeth y DU i’r gyfundrefn les a’r polisi cyni parhaus ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn archwilio'r holl ffyrdd sy'n agored i ni i liniaru'r canlyniadau i'r rhai yr effeithir arnynt.

16. Argymhellodd y Money Advice Trust yn ei adroddiad *Stop the Knock – mapping local authority debt collection practices in England and Wales 2017*[5] chwe cham y mae'n credu y dylai awdurdodau lleol eu cymryd i wella eu harfer

---

4 Analysis of Department for Work and Pensions and Office for National Statistics Family Resources Survey.

5 https://www.stoptheknock.org/storage/app/media/downloads/money-advice-trust-stop-the-knock-2017-report.pdf

- Gwneud ymrwymiad cyhoeddus clir i leihau defnydd o feilïaid dros amser.
- Adolygu'r ffyrdd y maent yn cyfeirio pobl at gyngor ar ddyled am ddim, gan gynnwys sianeli ffôn / ar-lein.
- Mabwysiadu'r Datganiad Ariannol Safonol i asesu fforddiadwyedd yn wrthrychol.
- Rhoi polisi ffurfiol ar waith ar gyfer trigolion sydd mewn amgylchiadau sy’n eu gwneud nhw’n agored i niwed.
- Eithrio Derbynwyr Cymorth Treth Gyngor rhag camau gweithredu gan feilïaid [mae hyn yn berthnasol i Loegr yn unig, lle mae awdurdodau lleol yn cynnal eu cynlluniau gostyngiadau ei hunain].
- Cytuno i’r Protocol Treth Gyngor sydd gan Cyngor ar Bopeth / Cymdeithas Llywodraeth Leol ac archwilio pecyn cymorth y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, Gweithio gydag Asiantaethau Cynghori ar Ddyledion.

17. Rydym am i'r argymhellion hyn gael eu gweithredu fel rhan allweddol o'n gwaith gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau cynghori ar ddyledion. Dylai unrhyw ddefnydd o weithdrefnau gorfodi ar gyfer ôl-ddyledion treth gyngor fod yn gymesur ac yn cael ei ystyried yng ngoleuni gallu unigolyn i dalu.

## Y trefniadau presennol ar gyfer gorfodaeth o ran dyled treth gyngor

18. Mae'r fframwaith ar gyfer gorfodi treth gyngor wedi'i nodi yn Atodlen 4 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a darperir y broses fanwl yn bennaf yn Rheoliadau Treth Cyngor (Gweinyddu a Gorfodaeth) 1992 (Rheoliadau 1992).

19. Yn hollbwysig, mae'r fframwaith gorfodi yn bodoli i orfodi talu treth gyngor, nid i gosbi peidio â thalu. Am y rheswm hwn, mae'n cynnwys profion i ganfod a all pobl dalu ac os mai’r rheswm dros beidio talu yw ystyfnigedd bwriadol neu esgeulustod bwriadol.

20. Os yw person yn peidio talu eu treth gyngor ar ôl i’r awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad galw (bil), rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad atgoffa iddynt sy'n esbonio canlyniadau peidio â thalu. Os yw'r person yn dal i beidio â thalu, rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad terfynol fel arfer. Ar ôl cyflwyno'r hysbysiad terfynol hwn, rhaid i'r awdurdod lleol aros saith diwrnod arall cyn gwneud cais i'r llys ynadon am orchymyn atebolrwydd mewn perthynas â'r swm sy'n weddill.

21. Os yw'r llys ynadon yn fodlon bod y swm a hawlir yn daladwy ac nad yw wedi'i dalu, mae'n rhaid iddo wneud gorchymyn ar gyfer y swm cyfanredol o’r swm/symiau sy'n ddyledus ynghyd â chostau rhesymol yr awdurdod lleol.

22. Gwnaed rheoliadau[6] yng Nghymru yn 2011 i osod uchafswm y gellid ei ganiatáu i awdurdodau bilio ar gyfer eu costau mewn cysylltiad â chais am orchymyn atebolrwydd. Gosodwyd y swm uchaf hwn yn £70 i atal costau gormodol. Nid oes darpariaeth o'r fath yn Lloegr.

[6] Rheoliadau'r Dreth Gyngor ac Ardrethu Annomestig (Diwygio) (Cymru) 2011

23. Gall awdurdod lleol ddewis gorfodi'r gorchymyn atebolrwydd mewn sawl ffordd, gan gynnwys trwy:

- Orchymyn atodiadau enillion (gan gyfarwyddo cyflogwr y dyledwr i wneud didyniad o enillion y dyledwr);
- Cymryd rheolaeth ar nwyddau;
- Gorchymyn codi tâl ar eiddo'r dyledwr treth gyngor;
- Deisebu am fethdaliad;
- Gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol am ddidyniadau o symiau sy'n daladwy i'r dyledwr mewn perthynas â chymorth incwm, credyd cyffredinol a mathau eraill o gefnogaeth a lwfansau'r llywodraeth.

24. Dim ond un dull gorfodi y gall yr awdurdod lleol ei ddefnyddio ar unrhyw adeg ond, yn amodol ar y cyfyngiad hwn, gall ddefnyddio nifer o wahanol ddulliau i geisio gorfodi'r gorchymyn atebolrwydd a gall hefyd geisio defnyddio'r mesurau sydd ar gael fwy nag unwaith . Yn ymarferol, mae awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol ac nid yw'n hysbys ar hyn o bryd pa un yw'r mwyaf effeithiol o dan ba amgylchiadau.

25. Fodd bynnag, dim ond ar ôl cais aflwyddiannus i orfodi'r gorchymyn atebolrwydd drwy gymryd rheolaeth o nwyddau y gall awdurdod lleol wneud cais i'r llys ynadon i gyhoeddi gwarant i ddedfrydu'r dyledwr i'r carchar.

26. Gwaherddir llys ynadon rhag cyhoeddi gwarant o ymrwymiad i'r carchar nes iddo wneud ymholiadau i ddyledwr y dreth gyngor, a rhaid iddo fod yn bresennol. Mae'n rhaid i'r ymholiadau ymwneud â:

- Gallu'r dyledwr i dalu; a
- P'un a oedd y methiant i dalu oherwydd ystyfnigedd bwriadol neu esgeulustod bwriadol.

27. Os – a dim ond os – bydd y llys o'r farn bod methiant i dalu oherwydd ystyfnigedd bwriadol neu esgeulustod bwriadol gall y llys gyhoeddi gwarant o ymrwymiad yn erbyn y dyledwr neu bennu cyfnod o garcharu a gohirio' cyhoeddi'r warant am gyfnod amser ac ar unrhyw amodau y mae'r llys yn eu hystyried. Er enghraifft, gellir gohirio'r carcharu ar yr amod bod y dyledwr yn talu swm penodol i'r awdurdod lleol bob wythnos.

28. Uchafswm y cyfnod carcharu yw tri mis. Mae'r ddeddfwriaeth – y Ddeddf a'r Rheoliadau – hefyd yn mynnu bod y cyfnod o garchar yn cael ei leihau gan swm rhagnodedig mewn perthynas â thalu rhan o'r ddyled.

29. Os caiff cyfnod carchar ei ohirio, ac y gosodir amodau ar y dyledwr y mae'r dyledwr yn methu â chydymffurfio a nhw, dylai'r mater gael ei ddychwelyd i'r llys er mwyn ystyried a ddylid gweithredu'r warant. Mae'r *Adult Court Bench Book* (the Bench Book[7]) yn nodi "bod angen i'r diffygdalydd fynychu'r llys am ymholiad modd arall" cyn cymryd y penderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu gwarant carcharu:

[7] Gweler paragraff 68 (tudalen 126) https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Adult-Court-Bench-Book-April-20161.pdf

"Cyn i'r warant gael ei chyhoeddi mae'n rhaid i'r llys fod yn sicr:

i. bod gan y diffygdalydd y modd i dalu yn syth, neu
ii. ei fod wedi gwrthod talu oherwydd ystyfnigedd bwriadol neu esgeulustod bwriadol, a bod dulliau eraill o orfodi wedi cael eu rhoi ar waith neu nad ydynt yn briodol."

30. Nid yw'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â gorfodi treth gyngor wedi'i datganoli'n gyfan gwbl i Gymru. Nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau i gyhoeddi canllawiau ar gyfer ynadon. Mae'r Arglwydd Brif Ustus yn gyfrifol am drefniadau ar gyfer hyfforddiant mewn llysoedd yng Nghymru a Lloegr[8] ac mae'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu harfer drwy'r Coleg Barnwrol[9].

31. Mae Llyfr y Fainc yn rhoi arweiniad i ynadon, gyda'r nod o'u helpu i ymgymryd â'r dasg o wneud penderfyniadau mewn dull teg a strwythuredig. Mae'n cynnwys canllawiau[10] ynghylch dedfryd o garchar am ddiffygdalu. Mae'r canllawiau ynghylch y camau i'w cymryd gan ynadon lle mae dyledwr yn methu â chydymffurfio â thelerau talu yn fanwl ac yn cynnwys gofyniad i ddyledwr ddychwelyd i'r llys am ymholiad modd newydd cyn i warant gael ei chyhoeddi. Fodd bynnag, pe bai'r Coleg Barnwrol yn dod i'r casgliad y byddai'n briodol, gellid diwygio Llyfr y Fainc ymhellach i gynnwys canllawiau mwy manwl ynglŷn â delio â dedfrydu dyledwyr dyfarniad.

**Asiantau Gorfodi (Beilïaid)**

32. Mae'r fframwaith sy'n rheoleiddio cymryd rheolaeth ar nwyddau wedi'i gynnwys yn Neddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (Deddf 2007) a'r Rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf gan yr Arglwydd Ganghellor. Nid oes gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2007 mewn perthynas ag asiantau gorfodi.

33. Ers mis Ebrill 2014, mae gan Weinidogion Cymru lai o bwerau[11] i wneud rheoliadau o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 mewn perthynas ag adennill y dreth gyngor. Mae hyn yn golygu nad yw Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r adferiad o dan Atodlen 12 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (cymryd rheolaeth ar nwyddau).

34. I gyd-fynd â gweithredu'r fframwaith newydd ar gyfer rheoleiddio cymryd rheolaeth ar nwyddau, ar 6 Ebrill 2014, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder arweiniad ar safonau gofynnol. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfrifoldebau a'r ymddygiadau allweddol a ddisgwylir mewn perthynas ag asiantau gorfodi. Disgrifir yr arweiniad fel "nid yn gyfreithiol rwymol" ond fel "offeryn defnyddiol i'r diwydiant ac i gredydwyr ... y gallant feincnodi eu safonau proffesiynol yn ei erbyn".

---

[8] O dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005
[9] https://www.judiciary.gov.uk/about-the-judiciary/training-support/judicial-college/
[10] Gweler paragraffau 69-74 (tudalennau 126-128) a'r siart llif ar dudalen 129 https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Adult-Court-Bench-Book-April-20161.pdf
[11] Ers 6 Ebrill 2014 – gweler Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007 (Consequential, Transitional and Saving Provision) Order 2014 (SI 2014/600)

**Cymhariaeth â dyledion sifil eraill (gan gynnwys yr Alban)**

35. Ymdrinnir â gorfodi'r mwyafrif o ddyledion sifil a dirwyon dan Ddeddf Llys Ynadon 1980 (er enghraifft, dirwyon parcio a biliau cyfleustodau). Mae gan y llys bŵer i ymrwymo i'r carchar ond mae'r pŵer yn gyfyngedig ble mae peidio â thalu'r dirwy yn deillio o gollfarn droseddol.

36. Uchafswm cyfnod carchar am beidio â thalu symiau y gellir eu gorfodi fel dyledion sifil dan Ddeddf Llys Ynadon 1980[12] yw chwech wythnos.

**Cyfraddau annomestig**

37. Mae'r gyfundrefn orfodi mewn perthynas â chyfraddau annomestig yn adlewyrchu hynny ar gyfer treth gyngor mewn sawl ffordd. Er enghraifft:

- Rhaid dilyn y weithdrefn ar gyfer cymryd rheolaeth ar nwyddau cyn y gellir gwneud cais am warant o ymrwymiad i'r carchar;
- Rhaid bod ymholiad (ym mhresenoldeb y dyledwr) o ran modd ac os yw'r methiant i dalu o ganlyniad i ystyfnigedd bwriadol neu esgeulustod bwriadol.; a
- Uchafswm cyfnod carchar yw tri mis.

38. Nid yw'n glir pam mai tri mis yw uchafswm y cyfnod o garchar ar gyfer trethi annomestig a'r dreth gyngor pan fo'r uchafswm ar gyfer dyledion sifil eraill yn chwech wythnos. Efallai, yn dilyn cyflwyno ac wedyn diddymu'r Dreth Gymunedol (treth pleidleisio) fod peidio â thalu'r dreth gyngor yn broblem sylweddol a bod cael opsiwn o ddedfryd lymach yn anfon y neges bod peidio talu yn fater difrifol. Yn ogystal, mae dyledion trethi lleol yn debyg o fod yn fwy na'r rhai ar gyfer dyledion sifil eraill ac yn debygol o godi'n gyflymach. O'r herwydd, efallai bod cyfnod hwy o garchar yn cael ei ystyried yn gymesur.

**Trethi datganoledig**

39. Mae Deddf Casglu a Rheoli Treth (Cymru) 2016 yn ymdrin â gorfodi trethi datganoledig. Mae'n darparu, pan fo treth o'r fath yn ddyledus (ac nad yw'r swm yn fwy na £ 2,000), i "gael ei adennill yn ddiannod fel dyled sifil". Mae hyn yn golygu bod y drefn a nodir yn Neddf Llys Ynadon 1980 yn gymwys.

40. O dan y drefn hon, nid yw'n bosibl i rywun gael dedfryd o garchar am beidio â thalu trethi datganoledig.

**Yr Alban**

41. Yn yr Alban, nid oes darpariaeth ar gyfer anfon dyledwyr treth gyngor i’r carchar.

42. Os bydd treth gyngor yn ddyledus yn dilyn rhybudd o alw a rhybudd atgoffa, gall awdurdod lleol wneud cais i'r Siryf am warant gryno sy'n manylu ar y swm sy'n ddyledus a manylion am ble mae taliadau i'w gwneud. Gellir adennill y symiau sy'n ddyledus mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Atodiad (cymryd nwyddau oddi wrth eiddo'r dyledwr);

[12] Paragraff 3 Atodlen 4 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980

- Atodiad arian (cymryd arian oddi wrth eiddo'r dyledwr);
- Atodiad enillion (cyfarwyddo cyflogwr y dyledwr i wneud didyniad o enillion y dyledwr);
- Ataliad a gwerthiant (mae hyn yn caniatáu i arian gael ei atafaelu o gyfrif banc y dyledwr, yn ogystal ag arian neu nwyddau a gedwir mewn storfa);
- Os oes gan y dyledwr hawl i gredyd cyffredinol neu amryw o gymorth neu lwfansau llywodraeth eraill, gall yr awdurdod lleol wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn iddo ddidynnu symiau o'r credyd, y gefnogaeth neu'r lwfans hwnnw, er mwyn sicrhau bod y swm sy'n ddyledus yn cael ei dalu.

## Yr achos dros ddileu'r gosb o garcharu

43. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw mynd i ddyled yn drosedd. Mae'r gosb o garcharu yn ymateb hen ffasiwn ac anghymesur i fater dyled sifil. Mae cost ychwanegol sylweddol i'r pwrs cyhoeddus wrth garcharu unigolion ac nid yw camau o'r fath yn cael effaith gadarnhaol ar y ddyled sy'n ddyledus i'r awdurdod lleol.

44. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd ystyried yr effaith hirdymor ar les a rhagolygon dyfodol unigolion sy'n cael eu carcharu; yr effaith ar deuluoedd a phlant, ochr yn ochr â'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus eraill sydd eu hangen yn aml i gefnogi'r unigolion hynny sydd wedi'u carcharu a'u teuluoedd.

45. Mae nifer o elusennau a grwpiau ymgyrchu wedi bod yn galw am gael gwared ar y defnydd o garchar.

46. Yn eu hadroddiad ar y cyd *I can't believe we still do that: the case for ending imprisonment for council tax debt in England and Wales,* a gyhoeddwyd ar 27 Tachwedd 2017[13], mae PayPlan a'r Institute of Money Advisors (IMA),yn tynnu sylw at yr effaith negyddol y mae camau gweithredu mewn llys yn ei chael ar deuluoedd ac unigolion.

    Dywedodd Robert Wilson, prif weithredwr Institute of Money Advisers:
    "Ychydig iawn o bwrpas sydd i garcharu, oherwydd bod y ddyled yn dal i fod yno ar y diwedd. Yn hytrach na chael cymorth gyda chynlluniau talu realistig, mae ein haelodau'n dweud bod pobl yn cael eu cosbi gyda ffioedd llys a gweithgareddau casglu llym gan eu cyngor lleol yn rhy aml."

    "Nid yw carcharu yn clirio eu dyled - mewn gwirionedd, fel arfer mae'n ei chynyddu ymhellach. Mae rhoi pobl yn y carchar yn ei gwneud yn anoddach iddynt wneud taliadau a gallai achosi anhrefn yn eu gwaith a'u bywyd teuluol. Ar ben hynny, rhaid i drethdalwyr dalu costau'r carchar hefyd."

---

[13] https://www.i-m-a.org.uk/other-services/social-policy/ima-payplan-council-tax-imprisonment-campaign/

47. Y llynedd, cafwyd adolygiad barnwrol o achos yn ymwneud â phreswylydd o Ben-y-bont ar Ogwr a gafodd ei charcharu'n anghywir am beidio â thalu treth gyngor. Ceisiodd yr hawlydd yn yr achos hwnnw herio cyfreithlondeb y system o orfodi treth gyngor sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr.

48. Er nad oedd y llys yn gweld bai ar y system ei hun, wrth archwilio'r data a gyflwynwyd gan yr hawlydd, roedd yr achos yn dangos – oherwydd y ffordd y mae’r gyfraith berthnasol yn cael ei chymhwyso gan lysoedd ynadon penodol – ei bod yn bosibl fod rhwng 9.5% a 18% o’r bobl y dygwyd achos gorfodi yn eu herbyn wedi’u dedfrydu i’r carchar yn anghyfreithlon.

49. Ysgrifennodd Angela Rafferty QC a 57 arall lythyr agored[14], a gyhoeddwyd yn y Guardian ar 26 Mawrth 2018, yn galw ar Lywodraeth y DU i gymryd camau i gael gwared ar y pŵer i garcharu gan ddweud eu bod yn credu bod hyn yn debygol o fod yn un o'r prif gamgymeriadau cyfiawnder torfol yn hanes Prydain.

50. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y sancsiynau eraill sydd ar gael i awdurdodau lleol yn ddigonol ac yn gymesur ar gyfer y sawl sydd â'r modd i'w dalu.

51. Fel y nododd adroddiad PayPlan / IMA "Mae cyfraith achosion wedi sefydlu na ddylid carcharu pobl â dyled treth gyngor os oes dewis arall ac na ellir eu hanfon i'r carchar fel cosb neu i atal eraill rhag peidio talu. Mae pwerau'r ynadon i garcharu ar gyfer yr achosion (prin) pan fo'r person sydd mewn ôl-ddyledion yn amlwg yn gallu talu'r ddyled, ond wedi methu â gwneud hynny ".

52. Rydym yn cydnabod nad yw'r system orfodi bob amser wedi gweithredu fel y bwriadwyd - yn enwedig wrth ymchwilio a oes gan rywun y modd i dalu eu dyled - a bod canlyniadau carchar yn ddifrifol iawn i'r rhai dan sylw. Er nad yw’r defnydd o orfodi talu treth gyngor drwy garcharu yn digwydd yn aml a'r risg o garchar anghyfreithlon yn isel, credwn fod y risgiau'n rhy uchel a bod y canlyniadau'n rhy fawr ac nad ydynt yn gymesur â maint y ddyled dan sylw.

53. Rydym hefyd yn cydnabod y gall awdurdodau lleol godi pryderon ynghylch effaith bosibl dileu’r gosb o garchar ar eu gallu i godi refeniw. Nid oes fawr o dystiolaeth o blaid nag yn erbyn effaith carcharu fel cam gorfodi ar gyfraddau casglu.

54. Mae cyfraddau casglu treth gyngor yn yr Alban (lle nad yw'r gyfundrefn orfodi yn cynnwys carchar) yn debyg i'r rhai yng Nghymru. Y gyfradd casglu treth gyngor ar gyfartaledd ar gyfer yr Alban yn 2016-17 oedd 95.8%. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 97.4% ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, ni ellir priodoli'r gwahaniaeth yn syml i'r gwahaniaeth yn y cyfundrefnau gorfodi. Roedd yr ystod rhwng y cyfraddau isaf ac uchaf ar gyfer awdurdodau yn y ddwy wlad yn debyg, 93.8% i 98.1% ar gyfer Cymru a 93.4% i 98% ar gyfer yr Alban, gan nodi bod ffactorau lleol hefyd yn cael effaith.

[14] https://www.theguardian.com/money/2018/mar/26/taking-action-for-those-jailed-over-unpaid-council-tax

**Casgliad**

55. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gasglu ôl-ddyledion treth gyngor i gefnogi darparu'r gwasanaethau hanfodol yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt. Credwn ei bod yr un mor bwysig y gwneir hyn yn gymesur, yn deg ac yn gyson.

56. Bydd y gwaith yr ydym yn ei wneud ar y cyd ag awdurdodau lleol ac asiantaethau cynghori ar ddyledion yn sicrhau bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn mabwysiadu'r arfer gorau sydd ar gael i gefnogi unigolion sydd mewn ôl-ddyledion treth gyngor.

57. Credwn fod y gosb o garchar yn hen ffasiwn ac yn anghymesur ar gyfer mater dyled sifil ac yn cytuno â'r ymchwil diweddar a thystiolaeth ymgyrchu. Ar y sail hon, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno defnyddio ei phwerau i gael gwared ar garchar fel cosb am beidio â thalu treth gyngor.

58. Bydd hyn yn sicrhau bod y sefyllfa yng Nghymru yn gyson â’r hyn ydyw yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

59. Rydym am glywed eich barn ar y mater pwysig hwn, gan gynnwys pa ddulliau eraill y gellid eu defnyddio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu casglu treth gyngor yn effeithlon ac yn effeithiol oddi wrth bobl sy'n gallu talu.

**Camau nesaf**

60. Mae'r ymgynghoriad ar agor am gyfnod o 12 wythnos. Yn ystod yr amser hwn, byddwn yn parhau i weithio ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid wrth weithredu'r dulliau a nodir yn y ddogfen hon.

61. Ar ôl i'r ymgynghoriad gau, bydd yr holl ymatebion yn cael eu dadansoddi a byddant yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig i gael gwared ar y gosb o garcharu am beidio â thalu treth gyngor.

62. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, ein bwriad yw cyflwyno rheoliadau newydd yn gynnar yn 2019 a buasai'r rheoliadau hynny yn dod i rym erbyn Ebrill 2019.

## FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

E-bost / Rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**CWESTIYNAU**

| |
|---|
| **C1: A ydych yn cytuno y dylid dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu treth gyngor?**<br><br>**YDW / NAC YDW**<br><br>**Rhowch sylwadau ategol** |
| |
| **C2: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn?** |
| |